**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 4 Hydref 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol:** P Lloyd (Cadeirydd) Presided

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| P R Hood-Williams | L James |

**Aelodau'r Grŵp Llywio**

| | | |
|---|---|---|
| J France | G Howe | P Jenkins |
| H Osborn | B Parry | P Thornton |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Paul Meller | Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol |
| Chris Lindley | Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Sean Hathaway | Swyddog yr Amgylchedd, Tîm Cadwraeth Natur |
| Ursula Jones | Swyddog Prosiect Cymunedau a Natur |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, A H Stevens a/ac M Thomas
Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): R Button a/ac D P Tucker

---

**10 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**11 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Llywio a Gynhaliwydar 5 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

**12 Crynodeb Ariannol. (Er Gwybodaeth) (Mike Scott)**

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, adroddiad ariannol cryno Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) 'er gwybodaeth'.

Amlygwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai cyllideb y CDC ar gyfer 2021/22 fyddai £100,000. Ychwanegwyd bod 15 o brosiectau wedi'u cymeradwyo, gyda £100,000 wedi'i neilltuo, gan ymrwymo'r arian yn llawn ar gyfer 2020/21 fel yr amlinellir isod.

Roedd ffigur y Cronfeydd Neilltuedig yn cynnwys ffi reoli DASA sef £7,500.55.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr arian sydd ar gael | £100,000 |
| Cronfeydd Neilltuedig | £100,000 |
| Cronfeydd heb eu Neilltuo | £0 |
| Ceisiadau ar waith | £0 |

**13 Diwygiadau Drafft i'r Broses Penodi i Banel Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. (Mike Scott)**

Rhoddodd Swyddog AoHNE Gŵyr yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Llywio ynghylch diwygiadau drafft i'r broses o benodi i Banel Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Amlinellwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am newidiadau i'r ffordd y penodwyd paneli grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, a'i nod oedd sicrhau bod y paneli'n cynnwys demograffeg amrywiol o aelodau, gyda chynrychiolaeth o Bartneriaeth AoHNE. Darparwyd y Cylch Gorchwyl Gweithdrefnol/Nodiadau Canllaw Arfaethedig yn Atodiad A.

Cynigiwyd y dylid diwygio'r broses bresennol i benodi aelodau Panel Grant y CDC a Phanel Apeliadau'r CDC. Ar hyn o bryd, enwebwyd 4 aelod o bob panel gan aelodau'r Grŵp Llywio bob dwy flynedd, am gyfnod o ddwy flynedd. Er mwyn bodloni canllawiau Llywodraeth Cymru, cynigiwyd bod y grŵp llywio'n penodi dau aelod o bob panel bob blwyddyn, am gyfnod o ddwy flynedd.

Byddai diwygio'r weithdrefn yn galluogi proses benodi dreigl, gan gadw'r sgiliau a adeiladwyd gan aelodaeth y panel, wrth hefyd gyflwyno aelodau newydd o'r panel. Byddai cyflwyniadau blynyddol i waith panel grantiau'r CDC yn cael eu darparu, fel rhan o'r rhaglen sefydledig o gyfarfodydd.

Dywedodd y Cadeirydd fod y diwygiad yn gynnig synhwyrol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r diwygiad i'r weithdrefn a'i drosglwyddo i gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y cyngor.

**14 Cynllun Grant Tirwedd a Bioamrywiaeth. (Llafar) (Mike Scott)**

Rhoddodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad ar lafar ar y Cynllun Grant Tirwedd a Bioamrywiaeth.

Ychwanegodd y byddai'n rhan o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a byddai'n cael ei anelu at grwpiau cymunedol ar gyfer cynlluniau fel codi waliau cerrig sych, plygu perthi, coedlannu, ffensio, creu perllan, rheoli llifogydd naturiol a chreu dolydd blodau

gwyllt. Byddai cynlluniau'n cael eu cyfyngu i gyllid o 50% hyd at £3,000. Byddai nodiadau a'r ffurflen gais arfaethedig yn cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod nesaf.

Trafododd y Grŵp Llywio gynnwys nodweddion pensaernïol bach/adeiladau bach yn y cynllun a chlustnodi cyllideb y cynllun.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cynllun a bydd swyddogion yn bwrw ymlaen â'i weinyddiaeth.

**15 Cyflwyniad - Cymunedau a Swyddog Prosiectau Natur AoHNE Gwyr. (Ursula Jones)**

Rhoddodd Ursula Jones, Swyddog Prosiect Cymunedau a Natur, gyflwyniad byr i'r Grŵp Llywio ar ei rôl bresennol o fewn Tîm AoHNE Gŵyr.

Rhoddodd fanylion am y prosiectau yr oedd wedi gweithio arnynt ers dechrau'r rôl ym mis Gorffennaf 2021, gan gynnwys rhaglen parhad Canclwm Japan yn Parkmill/Llanilltud, gwaith gwella llwybrau troed, pori ar Dir Comin Fairwood a datblygu cynllun rheoli ar gyfer Dyffryn Clun.

Diolchodd y Cadeirydd iddi am ei chyflwyniad a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl.

**16 Pwysau Twristiaeth ar AoHNE Gwyr 2021. (Gordon Howe, Cymdeithas Gwyr)**

Cyflwynodd Gordon Howe, Cymdeithas Gŵyr, adroddiad ar bwysau twristiaeth AoHNE Gŵyr yn 2021 a dynnodd sylw at ddau fater gwahanol ond cysylltiedig: Effaith niferoedd y twristiaid a rheoli ymwelwyr.

Cyfeiriodd yr adroddiad at y pwysau sy'n cael eu rhoi ar Gyngor Abertawe a'r Senedd i lacio'r rheolau a'r rheoliadau presennol sy'n ymwneud â gwersylla h.y. pebyll, pebyll crwn a gwersylla moethus ar Benrhyn Gŵyr. Ymdriniwyd â hyn yn lleol gan y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac fe'i diffiniwyd yn Adrannau TR6-TR9.

Esboniwyd bod hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu hymestyn o 28 niwrnod i 56 diwrnod gan y Llywodraeth oherwydd pandemig COVID-19, er mwyn caniatáu rhagor o dwristiaeth o fewn y DU. Er bod gwersylla ar Benrhyn Gŵyr wedi'i eithrio o hyn oherwydd y newidiadau a achoswyd gan Erthygl 4 yn ystod y 1970au, nid oedd wedi atal caffis symudol a lleoedd parcio ceir ychwanegol. Amlinellwyd y diffyg plismona/gwirio swyddogol ar wersylla gwyllt/faniau gwersylla, ynghyd â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at feysydd nad oeddent wedi'u gwirio neu leoliadau dros dro.

Pwysleisiwyd y pwysau cynyddol ar AoHNE yn ystod 2020-2021, gyda'r rhan fwyaf o safleoedd gwersylla presennol yn llawn a gweithgareddau anghyfreithlon yn cael eu hadrodd ond heb weithredu arnynt. Roedd safleoedd swyddogol llai hefyd wedi derbyn llif o geisiadau ac roedd tystiolaeth bod safleoedd mwy wedi manteisio ar lawer o'r galw ar draul pleser cwsmeriaid arferol a phreswylwyr Gŵyr.

Cyfeiriwyd at drafodaethau parhaus o fewn y cyngor, gan dderbyn y gallai rhai lleoliadau sydd wedi'u cuddio'n dda fod yn addas ar gyfer safleoedd bach

ychwanegol, heb ganiatáu lleoliadau amhriodol a niweidiol yn weledol, plismona safleoedd trwyddedig yn gadarn, diffyg arolwg carafanau ffurfiol gan y cyngor ers 2009 a diffyg arolwg traffig ar Benrhyn Gŵyr i bennu niferoedd cynyddol o dwristiaeth.

Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at gynnydd o ran twristiaeth a'r arian sy'n cael ei wneud o frand Gŵyr, y diffyg buddsoddiad i ddiogelu'r AoHNE. Mae Gŵyr yn prysur golli ei gymeriad ac mae mewn perygl o fod yn barc thema gogoneddus.

Tynnodd sylw ymhellach at newid demograffig ymwelwyr â Gŵyr, y cynnydd mewn gwersylla gwyllt, diffyg adnoddau i fynd i'r afael ag ef, diffyg mannau gwaredu cyhoeddus ar gyfer faniau gwersylla, yr angen am staff rheng flaen ym Mhenrhyn Gŵyr, sefydliadau'n ail-fuddsoddi eu hincwm yn ôl i'r AoHNE ac yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i addysgu a hysbysu ymwelwyr â Gŵyr.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Materion tebyg sy'n effeithio ar ardaloedd eraill yng Nghymru/y DU;
- Y negeseuon gan y Llywodraeth/Llywodraeth Cymru oedd i'r cyhoedd aros yn lleol a mwynhau'r amgylchedd/cyfleusterau lleol a'i fod yn bwysig deall effaith gweithgareddau ar ardaloedd;
- Y negeseuon cadarnhaol y gellir eu hanfon drwy gyfryngau cymdeithasol;
- Pwysigrwydd ymgysylltu cadarnhaol â'r cyhoedd;
- Rhagor o arian yn cael ei ddarparu i Barciau Cenedlaethol i'w cynorthwyo i reoli'r materion a amlygwyd;
- Yr elw a wnaed gan unigolion/gwmnïau ym Mhenrhyn Gŵyr/brand Gŵyr;
- Yr angen am arolwg carafanau blynyddol ar Benrhyn Gŵyr;
- Yr angen am arolwg traffig ar Benrhyn Gŵyr, yn enwedig mewn ardaloedd fel Rhosili lle'r oedd 1,000 o geir yr awr yn ymweld â'r pentref;
- Sefydlu gweithgor i drafod y mater wrth symud ymlaen.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Ffurfio gweithgor a'i hwyluso gan Arweinydd Tîm AHNE Gŵyr;
3) Caiff y Cynghorydd L James, Gordon Howe, Barbara Parry a Hamish Osbor eu hychwanegu at aelodaeth y gweithgor;
4) Gofynnir i gynrychiolwyr Twristiaeth a Phriffyrdd fod yn bresennol yn y gweithgor.

**17 Partneriaeth Tirweddau Dynodedig Genedlaethol - Seminar yr hydref. (Chris Lindley)**

Cyflwynodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad a oedd yn llywio'r Grŵp Llywio ar Seminar yr Hydref y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Genedlaethol.

Roedd yr adroddiad yn rhoi cefndir Tirweddau Cymru ac amlinellwyd bod gan dirweddau dynodedig rôl hollbwysig wrth weithredu ar argyfyngau hinsawdd a natur.

Ychwanegwyd, yn dilyn y Senedd yn datgan argyfwng natur, fod tirweddau dynodedig wedi ymrwymo i chwarae eu rhan wrth gyflawni'r datganiad hwn.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod aelodau Partneriaeth AoHNE Gŵyr wedi cael eu gwahodd i ymuno â Tirweddau Cymru ar-lein ar 19 Hydref 2021 i glywed am waith sy'n digwydd ar draws tirweddau dynodedig yng Nghymru ar y themâu canlynol:

- Newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio;
- Atebion sy'n seiliedig ar natur ac adfer natur;
- Twristiaeth Gynaliadwy; a
- Chefnogi cymunedau i ymateb i COVID-19 a hyrwyddo adferiad gwyrdd.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**18 Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Gryfhau Gorfodi o ran y Defnydd Peryglus o Gychod Hamdden a Phersonol. (Chris Lindley)**

Cyflwynodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad a oedd yn manylu ar Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Gryfhau Gorfodi o ran y Defnydd Peryglus o Gychod Hamdden a Phersonol

Amlinellwyd bod Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth a fyddai'n dod â chychod hamdden a phersonol o fewn cwmpas darpariaethau Deddf Llongau Masnach 1995.

Yn ôl y newid hwn:

- bydd defnyddwyr cychod personol a chychod hamdden eraill yn destun yr un rhwymedigaethau diogelwch, lle y bo'n briodol, sy'n bodoli ar gyfer gweithredwyr llongau.
- Bydd gan awdurdodau gorfodi bŵer erlyn ychwanegol i'w ddefnyddio mewn achosion o gamddefnyddio bwriadol neu esgeulus.

Ychwanegwyd mai Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am ddiogelwch morol; pe bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith, byddent yn gymwys i Gymru fel rhan gyfansoddol o'r DU.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- natur/sŵn eithaf aflonyddgar sgidiau jet a sut maent yn effeithio'n sylweddol ar nifer fawr o bobl/bywyd gwyllt;
- Yr angen i unigolion sy'n defnyddio cychod fod yn barchus o bobl eraill/bywyd gwyllt;
- Cysylltu â gweithgynhyrchwyr i wneud rhai cychod yn llai swnllyd.

Anogodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i roi sylwadau ar yr ymgynghoriad.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.53 pm

**Chair**